YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

**Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**
Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL
**Pennaeth/Head:**
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090
ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk
www.glantaf.cymru

23 Mehefin 2023

Annwyl Rhiant / Warcheidwad,



*Côr Gwerin 2023*

**Eisteddfod yr Urdd – Llanymddyfri 2023 –** Roedd yn hyfryd dychwelyd i faes yr Eisteddfod dros hanner tymor a phrofi gwefr a chyffro'r ŵyl ieuenctid. Roedd llwyddiannau Glantaf yn niferus gyda disgyblion yn llwyddo mewn sawl maes: Llenyddiaeth (Cadi Dafydd, Mared Edwards), Mathemateg (Finn Osborne; Elin Thomas a Patrick John), Celf a dylunio (Rhodri Davies a Chanolfan Glantaf ) ond hefyd mewn sawl perfformiad cofiadwy ar y prif lwyfannau. Hoffem sôn yn arbennig am ddisgyblion Canolfan Glantaf a gystadlodd am y tro cyntaf yn yr wyl, ac a enillodd Fedalau Arian yn dilyn perfformiad ysgubol. Ymhlith llwyddianau eraill roedd medalau aur: Megan, Menna, Remy a Rafik (Ensemble Offerynnol); Mathew Bill a Cian Glyn (Deuawd Cerdd Dant); Owen Frawhawk (Chwythbrennau); Elen Morlais (Dawns Werin) yn ogystal â'r Côr Iau Bechgyn. Medalau Arian: Mari Fflur Thomas (Llefaru) a Steffan John (Offerynnau Taro). Medal Efydd: Côr Gwerin; Grwp Cerdd Dant; Mari Fflur Thomas (Dawns Werin unigol). Diolch yn fawr iawn i'r holl fyfyrwyr a fu'n cystadlu gyda chlod arbennig ar draws cystadlaethau amrywiol – cawsom gymaint o bleser o'ch gweld ar y llwyfan a mwynhau eich perfformiadau!



*Rafik, Menna, Remy, Mrs Wynn a Megan*
*Ensemble Offerynnol*

**Diwrnod Agored Bl 6 / Noson Agored Bl6** - Fe wnaethon ni fwynhau croesawu ein carfan Blwyddyn 7 newydd (Medi 2023) i'r ysgol yr wythnos hon a gyda chyfle i ddisgyblion gwrdd â'u dosbarth cofrestru ar gyfer mis Medi. Ar ddydd Llun a dydd Mawrth 26 a 27 Mehefin, byddwn yn cynnal nosweithiau agored Bl6 i groesawu rhieni newydd i gymuned yr ysgol. Bydd y ddwy noson yn cael eu cynnal yng Nglantaf rhwng 5-7pm.

**Arddangosfa Gelf – 4 Gorffennaf 5-7pm** - Mae'n bleser gennym eich gwahodd i'n Harddangosfa Celf a Dylunio a gynhelir yng Nglantaf nos Fawrth 4 Gorffennaf rhwng 5-7pm. Dewch i fwynhau gwaith creadigol disgyblion yn eu cyrsiau TGAU a Safon Uwch – edrychwn ymlaen at eich croesawu i noson gofiadwy.

**Dathliadau Balch -** Gwych croesawu cyn-ddisgyblion, Leo Drayton a Vittorio Olivari yn ogystal â'r gantores a'r cyflwynydd teledu a radio Catrin Herbert i'r ysgol yr wythnos hon i ddathlu Mis Balch yng Nglantaf. Roedd y gweithdy'n gyfle da i ddisgyblion wrando a myfyrio ar safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc eraill ac roedd ymateb aeddfed a charedig ein disgyblion yn gwbl nodweddiadol.



*Cyflwyniad Dramatig Iau*

**Bl 9 Taith Pêl-droed i Barcelona** - Croeso yn ôl a diolch i'n bechgyn Bl9 am eu cwmni da ar daith bêl-droed Barcelona dros y Sulgwyn. Edrychwn ymlaen at rannu manylion taith 2024 a fydd ar gael cyn bo hir ar gyfer disgyblion Blwyddyn 8 (cyfredol).

**Ymwelwyr o Ffrainc –** Cawsom y pleser o groesawu disgyblion o Goleg St Gilles ger Nantes i'r ysgol y tymor hwn gyda gweithgareddau Addysg Gorfforol ac adeiladu tim.

**Brechiadau HPV Bl8 –** Diolch am eich cefnogaeth i'r brechiadau HPV, braf clywed mai Glantaf oedd a'r ganran uchaf o blant sydd wedi derbyn brechiad o unrhyw ysgol uwchradd yng Nghaerdydd eleni.

**Noson Wobrwyo Chwaraeon – Gorffennaf 20fed am 7pm -** Rydym yn falch iawn o'ch gwahodd i'n Noson Wobrwyo Chwaraeon Flynyddol ar 20 Gorff am 7pm yn Neuadd yr ysgol. Yn ogystal â thalu teyrnged i gyflawniadau ein hunigolion a'n timau chwaraeon yn ystod y flwyddyn, bydd hefyd yn gyfle i ail-fyw rhai o uchafbwyntiau eleni. Bydd tocynnau ar gael ar ParentPay yn y dyfodol agos!

**Canlyniadau TGAU a Safon Uwch -** Nodwch y gellir casglu canlyniadau Safon Uwch o 8am (Bl 13) a 9am (Bl 12) ar 17 Awst gyda chanlyniadau TGAU yn cael eu casglu o 8am (Bl 11) a 9am (Bl 10) ar 24 Awst. Os na all eich mab / merch gasglu'r rhain wyneb yn wyneb, byddwn yn rhannu'r canlyniadau a rieni ond bydd angen cadarnhad ysgrifenedig gan y myfyriwr i gydsynio a'r trefniant hwn. **Bydd canlyniadau unigol yn cael eu hanfon i gyfeiriad ebost hwb pob disgybl erbyn 10am ar y dydd.**

**Athletau -** Newyddion da yr wythnos hon bod ein timau Athletau ym Mlynyddoedd 7 ac 8 a Bl9 a 10 wedi cael eu coroni'n Bencampwyr Sirol gyda sawl canlyniad rhagorol i athletwyr unigol. Ein dymuniadau gorau i'r timau ar gyfer Pencampwriaethau Cymru yn ystod y mis nesaf.

**Digwyddiadau i ddod –** Edrychwn ymlaen at nifer o weithgareddau yn ystod yr wythnosau nesaf:

| | |
|---|---|
| 24 Meh | Gŵyl Rygbi 7 bob ochr – caeau ysgol Glantaf ddydd Sadwrn o 12pm |
| 26 a 27 Meh | Pontio Bl 11 > 12: Sesiynau blasu a gweithdai Chweched Dosbarth |
| **28 Meh** | **Diwrnod HMS Clwstwr Glantaf – ysgol ar gau i ddisgyblion** |
| | Arddangosfa Rhyfel a Heddwch gan gynnwys ein Cofeb Ryfel Glantaf (Bl 10): Senedd |
| 29 Meh | Dawns Ffarwel Bl11 – Cyfnewidfa Lo Caerdydd am 6:30pm |
| 3 Gorff | Diwrnod Chwaraeon Cynradd: Bl6 10am – 2pm |
| 4 Gorff | Arddangosfa Celf: Gwaith cwrs TGAU a Safon Uwch, 5-7pm |
| 5 Gorff | Taith Gerdded Noddedig Bl9 i Fae Caerdydd |
| 5-7 Gorff | Ymweliad preswyl Canolfan Glantaf â Liddington |
| 6 Gorff | Gweithdai diogelwch trydaneiddio rheilffyrdd: pob disgybl |
| | Diwrnod Cemeg Bl 10 |
| 7 Gorff | Taith Gerdded Noddedig Bl 10 i Gastell Coch |
| 21 Gorff | Diwedd Tymor yr Haf am 1.30pm |
| 17 Awst | Canlyniadau Safon Uwch ac UG; Bl 13 am 8am; Bl 12 am 9am |
| 24 Awst | Canlyniadau TGAU: Bl 11 am 8am; Bl 10 am 9am |
| 5 Medi | Dechrau Tymor yr Hydref Bl 7 a Bl 12 yn unig |
| 6 Medi | Dechrau'r tymor (pob disgybl) |



*Celf Stryd Glantaf yn yr Eglwys*

I gloi, hoffwn eich atgoffa bod ein dydd HMS olaf eleni ar ddydd Mercher 28 Mehefin pan fydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion. Edrychwn ymlaen at rannu ein Hadroddiad Blynyddol gyda chi cyn diwedd y tymor a byddwn yn cysylltu â chi unwaith eto gyda diweddariadau pellach ar weithgareddau ysgol ym mis Gorffennaf.




*Canolfan Glantaf (Medal Arian) Llanymddyfri*

Yn gywir

M H T Evans

Matthew H T Evans
Pennaeth
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf